Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Awgrymiadau ar gyfer Arweinyddion Eisteddfodau

Mae angen arweinwyr sionc gyda phersonoliaeth cynnes a chyfeillgar.

Mae angen hefyd bod yn bendant a chadarn.

Mae angen llais cryf a'r hyder i fynnu sylw'r gynulleidfa ac i sicrhau distawrwydd pan fo cystadleuwyr yn perfformio neu'r beirniad yn llefaru.

Mae angen i'r arweinydd fod yn gyfeillgar ac amyneddgar gyda'r cystadleuwyr gan sicrhau, o'r cychwyn cyntaf, bod trefn i'r cystadlu (e.e. y diwethaf i'r llwyfan sy'n cystadlu gyntaf ac ati).

Mae angen cyfathrebu gyda'r gynulleidfa a'r stiwardiaid mewn modd cwrtais, cyfeillgar a chadarn.

Mae angen cadw'r eisteddfod i fynd. Ni ddylai fod saib rhwng y cystadleuwyr o fewn yr un gystadleuaeth, na rhwng y cystadlaethau ychwaeth.

Dylai arweinydd cael stôr fechan o bethau i'w dweud/cyhoeddi rhag ofn bod yna aros anorfod (e.e. i'r beirniad gwblhau ysgrifennu ei feirniadaeth cyn bwrw ymlaen â'r gystadleuaeth nesaf).

Mae disgwyl i'r arweinyddion ddilyn canllwiau'r ysgrifenyddion.

www.steddfota.org

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government